CYNGOR BWRDEISTREF SIROL MERTHYR TUDFUL

# HYSBYSIAD O ETHOLIAD

Cyngor Bwrdeistref Sirol MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL County Borough Council

Mae **Is-Etholiad Llywodraeth Leol** i gael ei gynnal ar gyfer

## WARD DOWLAIS A PHANT

Os caiff yr theoliad ei ymladd, cynhelir y bleidlais ar

**DYDD IAU 25 MEHEFIN 2026**

| Ward | Nifer o Gynghorwyr I gael eu hethol |
|---|---|
| **DOWLAIS A PHANT** | **1** |

1. Rhaid cyflwyno papurau enwebu i'r Swyddog Canlyniadau erbyn 4.00pm ar Dydd Gwener 29 Mai 2026

2. Gellir cyflwyno papurau enwebu i'r Swyddog Canlyniadau yn Canolfan Ddinesig, Stryd y Castell, Merthyr Tudful, CF47 8AN rhwng 10.00 am a 4.00pm ar unrhyw ddiwrnod gwaith o ddyddiad cyhoeddi'r hysbysiad hwn (ac eithrio gwyliau banc) neu'n electronig yn unol â'r trefniadau a nodir yn y datganiad ar gyflwyno'n electronig.

3. Gellir cael papurau enwebu gan y Swyddog Canlyniadau yn swyddfeydd y cyngor ar gyfer Merthyr Tudful, Canolfan Ddinesig, Stryd y Castell, Merthyr Tudful, CF47 8AN neu 2026elections@merthyr.gov.uk neu'n electronig drwy Dydd Mawrth 19 Mai 2026 o Dydd Gwener 29 Mai 2026.

4. Rhaid i geisiadau i gofrestru i bleidleisio gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol erbyn 12 hanner nos Dydd Mawrth 9 Mehefin 2026. Gellir cyflwyno cais ar-lein: **https://gov.uk/cofrestru-i-bleidleisio**.

5. Rhaid i geisiadau, newidiadau neu achosion o ganslo pleidleisiau post gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn Canolfan Ddinesig, Stryd y Castell, Merthyr Tudful, CF47 8AN erbyn 5.00pm ar Dydd Mercher 10 Mehefin 2026.

6. Rhaid i geisiadau i bleidleisio drwy ddirprwy yn yr etholiad hwn gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn Canolfan Ddinesig, Stryd y Castell, Merthyr Tudful, CF47 8AN erbyn 5.00pm ar Dydd Mercher 17 Mehefin 2026.

Dyddiad: **Dydd Mawrth 19 Mai 2026**

**Ellis Cooper**
**Swyddog Canlyniadau**

Wedi'I brintio a'I gyhoeddi gan y Swyddog Canlyniadau, Gwasanaethau Etholiadol, Canolfan Ddinesig, Stryd y Castell, Merthyr Tudful CF47 8AN

7. Rhaid i geisiadau i bleidleisio drwy ddirprwy mewn argyfwng yn yr etholiad hwn gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn Canolfan Ddinesig, Stryd y Castell, Merthyr Tudful, CF47 8AN erbyn 5.00pm ar Dydd Iau 25 Mehefin 2026.

---

## Datganiad ar gyflwyno'n electronig

Rhaid I bapurau enwebu a gaiff eu cyflwyno'n electronig gael eu cyflwyno yn unol â'r trefniadau sydd wedi'u nodi yn y datganiad yma.

- Rhaid i bapurau enwebu sy'n cael eu cyflwyno'n electronig gael eu hanfon trwy e-bost at 2026elections@merthyr.gov.uk gyda'r pennawd CYFLYNIAD FFURFIOL. Os caiff papurau enwebu eu hanfon i unrhyw gyfeiriad e-bost arall, fyddan nhw ddim yn cael eu hystyried fel pe baen nhw wedi'u danfon at y Swyddog Canlyniadau, ac felly, fyddan nhw ddim yn cael eu derbyn.

- Rydyn ni'n eich annog i wneud gwiriadau anffurfiol cyn cyflwyno'ch papurau enwebu trwy ddull electronig. Rhaid anfon gwiriadau anffurfiol at 2026elections@merthyr.gov.uk gyda'r pennawd 'GWIRIAD ANFFURFIOL'.

- Rydyn ni'n eich annog i gynnwys manylion cyswllt ychwanegol ym mhrif destun eich e-bost fel bod modd i'r Swyddog Canlyniadau / staff y Gwasanaethau Etholiadol gysylltu â chi ynglŷn ag unrhyw ymholiadau.

- Er mwyn sicrhau olion archwilio clir o bapurau enwebu sy'n cael eu cyflwyno, rhaid atodi pob papur enwebu ar gyfer ymgeiswyr o restr plaid i un e-bost.

- Mae modd atodi papurau enwebu wedi'u cwblhau i e-bost mewn dogfen Word neu fel atodiad .pdf yn unig.

- Mae modd llofnodi papurau enwebu yn electronig – er enghraifft ar ffurf llofnod teipiedig.

- Unwaith y bydd papurau enwebu wedi'u cyflwyno i 2026elections@merthyr.gov.uk i'w cyflwyno'n ffurfiol, does dim modd gwneud unrhyw newidiadau iddyn nhw wedi hynny a does dim modd eu dychwelyd.

- Mae modd hefyd anfon hysbysiadau tynnu'n ôl at 2026elections@merthyr.gov.uk.

- Bydd ymateb e-bost awtomataidd yn cael ei anfon gan y Swyddog Canlyniadau ar ôl derbyn yr e-bost. **Dydy hyn ddim yn gadarnhad bod eich enwebiad yn ddilys**. Bydd y Swyddog Canlyniadau yn anfon hysbysiad at ymgeiswyr yn nodi a yw eich enwebiad yn ddilys ai peidio.

- Bydd papurau enwebu a hysbysiadau tynnu'n ôl yn cael eu trin fel eu bod nhw wedi'u dosbarthu pan fydd y dosbarthiad yn cael ei gofnodi ar system gyfrifiadurol y Swyddog Canlyniadau.

Nodwch: **Cyfrifoldeb y Swyddog Enwebu ar gyfer plaid neu ymgeiswyr unigol yw sicrhau bod y Swyddog Canlyniadau'n derbyn ffurflenni enwebu yn y modd cywir erbyn y dyddiadau cau gofynnol.**

Pe hoffech chi gael cymorth gyda dosbarthiad electronig yr enwebiadau, cysylltwch â'r Swyddog Canlyniadau: **Ffon:** 01685 725284 **Ebost:** electoral@merthyr.gov.uk

Dyddiad: **Dydd Mawrth 19 Mai 2026**

**Ellis Cooper**
**Swyddog Canlyniadau**

Wedi'I brintio a'I gyhoeddi gan y Swyddog Canlyniadau, Gwasanaethau Etholiadol, Canolfan Ddinesig, Stryd y Castell, Merthyr Tudful CF47 8AN